# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (220)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2006

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### 2.00pm
### Eitem 1: Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

........................................

### 2.52pm
### Eitem 2: Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf.

........................................

### 3.27pm
### Eitem 3: Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

Gofynnwyd y cwestiwn.

........................................

### 3.30pm
### Eitem 4: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3205 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i'r Prif Weinidog swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn a than Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005,

ac eithrio’r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**......................................**

## 3.33pm
## Eitem 5: Dadl ar Flaenraglen Llywodraeth Cynulliad Cymru

**NDM3206 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi Blaenraglen Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y’i nodwyd gan y Trefnydd yn Natganiad Ysgrifenedig y Cabinet, a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad, ddydd Mercher 13 Medi.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran yr iaith Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyswllt Deddf Llywodraeth Cymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr Adolygiadau o Ofal Eilaidd ledled Cymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Ambiwlans."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i ddarparu gofal personol rhad ac am ddim i bobl anabl."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant..

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar yr ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru i ddarparu brecwast ysgol rhad ac am ddim i bob plentyn yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar effaith codiadau yn y dreth gyngor dros yr wyth mlynedd diweddaf ar drethdalwyr yng Nghymru, yn enwedig y bobl sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 10 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfathrebu a chysylltiadau â'r cyfryngau."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 10 | 28 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am ddadl yn amser y Llywodraeth ar ddiddymu taliadau Tir Mynydd."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod maint pob dosbarth ysgol gynradd yn cael ei ostwng i 25 o blant."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 17 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno gofal cartref am ddim i bobl anabl."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 21 | 28 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno clustogfa 500 metr ar gyfer safleoedd glo brig."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

**Gwelliant 12 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am gyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 1 a 2."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 10 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**Gwelliant 13 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno Strategaeth Swyddi Gwyrdd ddrafft ar gyfer dadl yn y siambr."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 13:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 13.**

**Gwelliant 14 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno, ar gyfer dadl yn y siambr, gynigion i ailsefydlu'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 14:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 14.**

**Gwelliant 15 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno, ar gyfer dadl yn y siambr, gynigion i ailsefydlu Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 15:

Gan fod y bleidlais yn gyfartal, pleidleisiodd y Dirprwy Lywydd yn erbyn y gwelliant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 15.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig :**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 10 | 17 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................................**

## 4.35pm
## Eitem 6: Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio

**NDM3204 Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheolau Sefydlog 6.6 (vi) a 12.2 (iv) yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod 2005-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Gorffennaf 2006.

## 4.58pm

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol ger bron i estyn y cyfarfod am 20 munud: Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 5 | 35 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**.......................................**

**5.07pm**
**Eitem 7: Dadl fer**

**NDM3203 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Remploy – Y Ddadl dros Gefnogi

**........................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.32pm.**

**........................................**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 26 Medi 2006.

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**